**DEDDF DRAENIO TIR 1991**

**NEWID FFINIAU**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL AFON CONWY**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL CORS ARDUDWY**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL GLASLYN A PHENSYFLOG**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL GWENT**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL HARLECH A MAENTWROG**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL LLANFROTHEN**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL MAWDDACH AC WNION**

**ac**

**ARDAL DRAENIO MEWNOL POWYSLAND (CYMRU)**

Yn unol ag Adran 3 (1) Deddf Draenio Tir 1991 ("Deddf 1991"),[1] mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru") wedi paratoi'r cynllun canlynol, gan wneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol:

1 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Afon Conwy; a

2 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Cors Ardudwy; a

[1] 1991 p. 59

3 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Glaslyn a Phensyflog; a

4 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Gwent i wneud y canlynol:

(a) eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Gwent; a

(b) chynnwys y tir a ddangosir mewn glas llinellog ar Fap Gwent; a

5 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Harlech a Maentwrog; a

6 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Llanfrothen; a

7 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Mawddach ac Wnion; a

8 newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru) i wneud y canlynol:

(a) eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Powysland (Cymru); a

(b) chynnwys y tir a ddangosir mewn glas llinellog ar Fap Powysland (Cymru); a

9 materion sy'n ategol neu o ganlyniad i newid y ffiniau

ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno'r cynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o dan Adran 3 (5) Deddf 1991.[2]

---

[2] Mae Adran 3 (5) yn caniatáu i'r "gweinidog perthnasol" gymeradwyo trwy offeryn statudol unrhyw gynllun a gyflwynir. Yn ôl diffiniad Adran 72 (1) Deddf 1991, y "gweinidog perthnasol" "(c) mewn perthynas ag ardaloedd draenio mewnol sy'n hollol yng Nghymru neu'r byrddau ar gyfer ardaloedd o'r fath yw'r Ysgrifennydd Gwladol". Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn belled ag y maent yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn unol â pharagraff 30 Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn bellach yn ymarferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

**CYNLLUN 2018 AR GYFER NEWID FFINIAU ARDAL DRAENIO MEWNOL AFON CONWY, ARDAL DRAENIO MEWNOL CORS ARDUDWY, ARDAL DRAENIO MEWNOL GLASLYN A PHENSYFLOG, ARDAL DRAENIO MEWNOL GWENT, ARDAL DRAENIO MEWNOL HARLECH A MAENTWROG, ARDAL DRAENIO MEWNOL LLANFROTHEN, ARDAL DRAENIO MEWNOL MAWDDACH AC WNION, AC ARDAL DRAENIO MEWNOL POWYSLAND (CYMRU) WEDI'I GYFLWYNO GAN GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

1 Bydd y cynllun hwn yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r gorchymyn sy'n cadarnhau'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo.

2 Yn y cynllun hwn: -

mae "Gorchymyn 2013" yn golygu Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013;[1]

mae "Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Draenio Afon Conwy 1922,[2] fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Afon Conwy) 1953,[3] ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Afon Conwy" yn golygu mapiau tri wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Afon Conwy", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Afon Conwy" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Afon Conwy, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymunedau Eglwys-bach, Trefriw, a Llanddoged a Maenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy;

mae "Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionydd (Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy) 1939,[4] fel y'i diwygiwyd ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Cors Ardudwy" yn golygu mapiau dau wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Cors Ardudwy", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Ardudwy" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Cors Ardudwy, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymuned Llanbedr yn sir Gwynedd;

mae'r "dyddiad dechrau" yn golygu'r dyddiad y mae'r cynllun hwn yn dod i rym;

---

[1] O.S. 2013/755
[2] Rh.S. a G. 1922/994
[3] O.S. 1953/800
[4] Rh.S. a G. 1939

mae "Ardal Draenio Glaslyn a Phensyflog" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan [5] Orchymyn Bwrdd Afonydd Gwynedd (Ardal Draenio Glaslyn a Phensyflog) 1964, ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Glaslyn a Phensyflog" yn golygu mapiau dau wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Glaslyn a Phensyflog", ac sydd wedi'u hadneuo yn Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Laslyn a Phensyflog" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Glaslyn a Phensyflog, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymuned Porthmadog yn sir Gwynedd;

mae "Tir a Ychwanegwyd at Went" yn golygu'r tir hwnnw o fewn ffiniau Ardal Draenio Mewnol Gwent, fel y'i dangosir mewn glas llinellog ar Fap Gwent, sy'n cynnwys y tiroedd sydd o fewn cymunedau Coedcernyw yn ninas Casnewydd, a Chrucornau yn Sir Fynwy;

mae "Ardal Draenio Mewol Gwent" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Chil-y-coed a Gwynllŵg (Diddymu) 2015;[6]

mae "Map Gwent" yn golygu mapiau chwech wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Gwent, Is-Ardal Cil-y-Coed a Gwynllwg" a "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Gwent, Is-Ardal Gwy Isaf", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

Mae "Tir a Dynnwyd o Went" yn golygu'r tir hwnnw o fewn ffiniau Ardal Draenio Mewnol Gwent, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Gwent, sy'n cynnwys y tiroedd sydd o fewn cymunedau Cas-gwent a Llanfihangel Troddi yn Sir Fynwy;

mae "Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog) 1940,[7] fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog) 1951,[8] ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Harlech a Maentwrog" yn golygu mapiau pump wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Harlech a Maentwrog", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Harlech a Maentwrog" yn golygu'r tir hwnnw sydd o fewn ffiniau Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Harlech a Maentwrog, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymunedau Ffestiniog, Harlech, Maentwrog, Penrhyndeudraeth, a Thalsarnau yn sir Gwynedd;

---

[5] O.S. 1964/1931
[6] O.S. 2015/872
[7] Rh.S. a G. 1940/2152
[8] O.S. 1951/372

mae "Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Draenio Llanfrothen 1928[9], fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Gaernarfon (Bwrdd Draenio Mewnol Llanfrothen) 1943[10] a Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Llanfrothen) 1951,[11] ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Llanfrothen" yn golygu mapiau dau wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Llanfrothen", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Lanfrothen" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Llanfrothen, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymuned Beddgelert yn sir Gwynedd;

mae "Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion) 1949,[12] fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afonydd Sir Feirionnydd (Ailgyfansoddi Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion) 1949[13] a Bwrdd Afonydd Gogledd-orllewin Cymru (Trosglwyddo Pwerau Bwrdd Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion) 1950,[14] ac a roddwyd bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn 2013;

mae "Map Mawddach ac Wnion" yn golygu mapiau dau wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Mawddach ac Wnion", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Fawddach ac Wnion" yn golygu'r tir hwnnw sydd o fewn ffiniau Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion, fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Mawddach ac Wnion, sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymunedau Brithdir a Llanfachreth, Dolgellau, y Ganllwyd, a Llanelltud yn sir Gwynedd;

mae "Cyfoeth Naturiol Cymru" yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012;[15]

mae "swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru" yn golygu swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Nhŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP;

mae "Tir a Ychwanegwyd at Powysland (Cymru)" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru), fel y'i dangosir mewn glas llinellog ar Fap Powysland (Cymru), sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymuned Llandysilio yn sir Powys;

---

[9] Rh.S. a G. 1928/135
[10] Rh.S. a G. 1943/222
[11] O.S. 1951/1733
[12] O.S. 1947/2904
[13] O.S. 1949/1918
[14] O.S. 1951/446
[15] O.S. 2012/1903

mae "Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru)" yn golygu'r ardal draenio mewnol fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Ardal Draenio Mewnol Powysland (Diddymu) 2015;[16]

mae "Map Powysland (Cymru)" yn golygu mapiau tri wedi'u selio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 31 Ionawr 2018, a elwir yn "Adolygiad Ffin Ardal Draenio Mewnol (ADM) Powysland (Cymru)", ac sydd wedi'u hadneuo yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae "Tir a Dynnwyd o Powysland (Cymru)" yn golygu'r tir hwnnw o fewn Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru), fel y'i dangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Powysland (Cymru), sy'n cynnwys tiroedd sydd o fewn cymuned Aberriw yn sir Powys.

3 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Afon Conwy.

4 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Gors Ardudwy.

5 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Laslyn a Phensyflog.

6 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Gwent yn cael eu newid i wneud y canlynol:

(1) eithrio'r Tir a Dynnwyd o Went; a
(2) chynnwys y Tir a Ychwanegwyd at Went.

7 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Harlech a Maentwrog.

8 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Lanfrothen.

9 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion yn cael eu newid i eithrio'r Tir a Dynnwyd o Fawddach ac Wnion.

10 Gydag effaith o'r dyddiad dechrau, bydd ffiniau Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru) yn cael eu newid i wneud y canlynol:

(1) eithrio'r Tir a Dynnwyd o Powysland (Cymru); a
(2) chynnwys y Tir a Ychwanegwyd at Powysland (Cymru).

---

[16] O.S. 2015/923

11 Mae'r cynllun yn gweithredu fel tystiolaeth derfynol o unrhyw beth a drosglwyddir o dan y cynllun hwn heb yr angen am aseiniadau, trosglwyddebau neu weithredoedd trosglwyddo pellach.

Dyddiedig 6 Chwefror 2018

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )
CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU )
ar y cynllun hwn )
gerbron )

S. Abrey

.......................................................................................
Llofnodwr Awdurdodedig

Mrs J Carne

J Carne
C/o Natural Resources Wales
Cambria House
29 Newport Road
CARDIFF
CF24 0TP.

#0035